HSE

Yr Awdurdod
Gweithredol Iechyd
a Diogelwch

Grymoedd gwarantedig arolygwyr HSE

WP/01 Fersiwn 4K 09/22

Mae'r llyfryn hwn yn sefydlu grymoedd Arolygwyr Iechyd a Diogelwch Ei Mawrhydi a benodwyd dan adran 19 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974.

Diffiniadau

Yn y ddogfen hon - golyga "Deddf 1974" y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974; a golyga "yr Awdurdod" yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

1 Arolygydd yr Awdurdod, a benodwyd dan adran 19 Deddf 1974, ac sydd â'r hawl i arfer grymoedd arolygydd a benodwyd yn:

- adrannau 20, 21, 22, 23, 25 ac yng Nghymru a Lloegr, adran 39 Deddf 1974;
- unrhyw reoliad iechyd a diogelwch; a
- darpariaethau'r Deddfau a grybwyllwyd yn Atodlen 1 i Ddeddf 1974 a ddynodir yn nhrydedd golofn yr Atodlen honno a'r Rheoliadau, gorchmynion neu offerynnau eraill o natur ddeddfwriaethol a wnaed neu sy'n cael effaith dan unrhyw ddarpariaeth a ddynodwyd felly (fel mewn grym o bryd i'w gilydd); ac i
- gychwyn achosion yng Nghymru a Lloegr yn unol ag adran 38 Deddf 1974.

2 Cynghorydd Meddygol Cyflogaeth yr Awdurdod, gyda'r hawl i ymarfer grymoedd cynghorydd meddygol cyflogaeth a ddynodwyd yn:

- unrhyw reoliad iechyd a diogelwch; a

- darpariaethau'r Deddfau a grybwyllwyd yn Atodlen 1 i Ddeddf 1974 a ddynodir yn nhrydedd golofn yr Atodlen honno a'r Rheoliadau, gorchmynion neu offerynnau eraill o natur ddeddfwriaethol a wnaed neu sy'n cael effaith dan unrhyw ddarpariaeth a ddynodwyd felly (fel mewn grym o bryd i'w gilydd).

Rheoliadau Amser Gwaith 1998

3 Arolygydd i'r Awdurdod, a benodwyd dan baragraff 1(1) Atodlen 3 y Rheoliadau Amser Gwaith 1998[1] ('Rheoliadau 1998'), ac sydd â'r hawl i:

- arfer y grymoedd a ddynodir yn Atodlen 3 i Reoliadau 1998 ac i erlyn gerbron Llys ynadon achos am drosedd dan reoliad 29D Rheoliadau 1998, fel y mewnosodwyd gan reoliad 10 y Rheoliadau Amser Gwaith (Addasiad) 2003[2].

Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969

4 Arolygydd o'r Awdurdod a awdurdodwyd dan adran 4(2)(b) y Ddeddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 ('Deddf 1969') a'r Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno, a gyda'r hawl i arfer grymoedd arolygydd a ddynodwyd yn adran 4 Deddf 1969 i:

- gyhoeddi hysbysiadau dan reolaidd 6 y Rheoliadau Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998[3]; ac i

- archwilio, yn ystod cyfrededd yr yswiriant, y polisi yswiriant neu gopi, dan reoliad 7 y Rheoliadau hynny.

Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985,

Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2011

Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012

5 Mae unigolyn a awdurdodwyd gan yr Awdurdod yn unol ag adran 19(1) y Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 ('Deddf 1985'), rheoliad 7(1) y Rheoliadau Cynnyrch Amddiffyn Planhigion 2011[4] a rheoliad 20(1) y Rheoliadau Cynnyrch amddiffyn Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012[5] (yn unol â (i) threfniadau a wneir rhwng yr Awdurdod a Gweinidogion yr Alban a'r Awdurdod a'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 13(4) Deddf 1974 a (ii) cytundebau a wneir gyda Gweinidogion Cymru dan adran 13(4) Deddf 1974 ac adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006) wedi ei awdurdodi i arfer y grymoedd a sefydlwyd yn:

- Adran 19 ac atodlen 2 Deddf 1985 parthed toriadau i'r Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986[6];
- Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2011; ac
- Atodlen 3 i'r Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 yng Nghymru a Lloegr.

Atodlen

Mae'r awdurdodiadau ym mharagraff 5 yn amodol i eithriadau a ddisgrifir yn y trefniadau y cyfeirir atynt uchod.

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr awdurdodiad hwn at ddeddfiad yn gyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i haddaswyd.

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

6 Mae Arolygydd o'r Awdurdod a benodwyd dan adran 114(1) y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ('Deddf 1990'), yn unol â chytundeb rhwng yr Awdurdod a'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 125(1) Deddf 1990 ac adran 13(4) Deddf 1974 wedi ei awdurdodi:

- dan adran 114(4) Deddf 1990 i erlyn am drosedd; ac
- i gyflawni swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a ddynodwyd yn adrannau 110, 115, 116, 117, 118(10) ac 121 Deddf 1990.

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Deddf Tân (Yr Alban) 2005

7 Yn unol ag erthygl 26(1) y gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005[7] ("Gorchymyn 2005") ac adran 61(3) Deddf Tân (Yr Alban) 2005[8] ('Deddf 2005') penodwyd:

- i fod yn arolygydd i ddibenion Gorchymyn 2005 a Rheoliadau a wnaed danddi, gyda'r hawl i ymarfer

yng Nghymru a Lloegr, rymoedd arolygydd a benodwyd dan erthygl 26 fel y dynodwyd yn erthyglau 27 i 31 Gorchymyn 2005; a

- i fod yn swyddog gorfodi i ddibenion Deddf 2005 a Rheoliadau a wnaed danddi, gyda'r hawl i ymarfer yn yr Alban rymoedd swyddog gorfodi fel y dynodwyd yn adrannau 61 i 65 Deddf 2005.

Deddf trydan 1989

8 Arolygydd trydanol a benodwyd dan adran 30(1) Deddf Trydan 1989, wedi ei awdurdodi i:

- orfodi'r Ddeddf; a
- cyflawni'r swyddogaethau a sefydlwyd yn rheoliadau 30 i 34 y Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Didoriant Trydan 2002[9] fel y'i diwygiwyd.

Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 2008 a 2009

9 Penodwyd gan yr Awdurdod, i arfer grymoedd a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 89 y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ('Deddf 1981'), yn unol â chytundebau rhwng yr Awdurdod a'r Ysgrifennydd Gwladol, yr Awdurdod a Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod a Gweinidogion yr Alban, dan adran 13(4) Deddf 1974, ac wedi ei awdurdodi i arfer:

a) grymoedd arolygydd a bennwyd yn Erthyglau 6, 7 ac 8 ac Atodlen 2 i, yn ôl eu trefn y Gorchymyn Pathogenau

Anifeiliaid Penodedig 2008[10], y Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008[11] a'r Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (yr Alban) 2009[12] ('y Gorchmynion'), ac

b) i'r fath raddau ag y maent yn berthnasol i orfodi Gorchmynion:

(i) y grymoedd a ddynodwyd yn adran 63 o Ddeddf 1981, ac

(ii) grymoedd eraill a roddwyd i arolygwyr trwy Ddeddf 1981.

Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf) (Cymru a Lloegr) 2008
Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf) (Yr Alban) 2008

10 Mae unigolyn a benodwyd gan yr Awdurdod yn unol â rheoliad 8(1) y Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf) (Cymru a Lloegr) 2008[13] ('y Rheoliadau MRL') (yn unol â chytundeb a wnaed gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 13(4) Deddf 1974 a chytundeb a wnaed gyda Gweinidogion Cymru dan yr adran honno ac adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006) wedi ei awdurdodi i arfer y grymoedd a sefydlwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau MRL.

11 Mae unigolyn a benodwyd gan yr Awdurdod yn unol â rheoliad 2(1) y Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf) (yr Alban) 2008[14] ('Rheoliadau MRL (Yr Alban)') (yn unol â chytundeb a wnaed gyda Gweinidogion yr Alban dan adran 13(4) Deddf 1974) wedi ei awdurdodi i arfer y grymoedd a sefydlwyd yn Atodlen 1 Rheoliadau MRL (Yr Alban).

Rheoliadau Gorfodi REACH 2008

12 Arolygydd yr Awdurdod, a benodwyd dan adran 19 Deddf 1974, ac a awdurdodwyd dan reoliad 10 y Rheoliadau Gorfodi REACH 2008[15] ('rheoliadau REACH') trwy rinwedd rheoliad 10(2) Rheoliadau REACH ac sydd â'r hawl i:

- arfer y grymoedd a ddynodwyd yn Rhan 2 Atodlen 6 y Rheoliadau REACH, yn unol â rheoliad 9(1) y Rheoliadau REACH; ac
- i erlyn gerbron llys o awdurdod diannod yng Nghymru a Lloegr achos am drosedd a gyflawnwyd dan reoleiddiad 11 neu 13 y Rheoliadau REACH, yn unol â rheoliadau 17(1) y Rheoliadau REACH.

1 OS 1998/1833
2 OS 2003/1684
3 OS 1998/2573
4 OS 2011/2131
5 OS 2012/1657
6 OS 1986/1510
7 OS 2005/1541
8 OSA 2005/344
9 OS 2002/2665
10 OS 2008/944
11 OS 2008/1270
12 OSA 2009/45
13 OS 2008/2570
14 OS 2008/342
15 OS 2008/2852

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Os ydych yn dod o hyd iddi, ewch â hi i'r orsaf heddlu agosaf neu gysylltu â Phencadlys yr HSE ar 0203 028 4000. Diolch.